**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

| Eitem / Item | Dyddiad / Date | |
|---|---|---|
| 39.5 | 18.7.24 | |
| Teitl / Title | | Er / For |
| Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lansio'r Cynllun Llesiant / Diweddariad Digwyddiadau | | *Trafodaeth a Chytundeb* |
| Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues | | |
| Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd i wirfoddolwyr gymryd rhan mewn grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried opsiynau ar gyfer lansiad ffurfiol y Cynllun Llesiant 2023-2028.<br><br>Daeth y grŵp ynghyd ar 22 Ebrill 2024 gyda chynrychiolaeth gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Cafwyd trafodaeth eang ynghylch digwyddiad lansio a sut orau i hyrwyddo'r Cynllun Llesiant.<br><br>O ystyried yr amser sydd wedi pasio ers cyhoeddi'r Cynllun Llesiant, roedd consensws y byddai'n well pe bai'r BGC yn sicrhau presenoldeb mewn cyfres o ddigwyddiadau dros yr haf i rannu cynnwys y Cynllun a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o weithgareddau'r BGC.<br><br>Awgrymwyd y gallai'r Bwrdd gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol priodol, a darparu stondin wybodaeth ar gyfer y cyhoedd i hyrwyddo bwriad a chyflawniadau'r BGC, yn ogystal ag ein huchelgeisiau. Gyda hyn, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o fewn y gymuned o waith y BGC a gwaith yr is-grwpiau.<br><br>Cytunodd Cadeiryddion yr is-grwpiau cyflawni gynnal trafodaeth bellach yn ystod eu cyfarfodydd nesaf ynghylch cyfleoedd i fynychu digwyddiadau lleol addas. Byddent hefyd yn gofyn am wirfoddolwyr i gynrychioli'r BGC yn y digwyddiadau yma.<br><br>Ers gohirio'r cyfarfod BGC diwethaf, cafwyd cyfres arall o gyfarfodydd is-grŵp lle cynhaliwyd y trafodaethau hyn. Bydd unrhyw awgrymiadau sydd wedi'u casglu ar gyfer digwyddiadau yn cael eu coladu i'r aelodau i'w hystyried pan gyflwynir yr adroddiad hwn. | | |
| Goblygiadau Ariannol / Financial Implications | | |
| | | |
| Argymhellion / Recommendations | | |
| Bod y BGC yn cytuno ar bresenoldeb mewn cyfres o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth dros yr haf. | | |
| Atodiadau / Attachments | | |

| |
|---|
| Swyddog Adrodd / Reporting Officer |
| Timothy Bray |